CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3232 (Cy.312)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn manylu ar sut y mae adroddiad arolygu i'w gyhoeddi pan fydd ei gyhoeddi yn ofynnol gan yr awdurdod cofrestru wedi i ysgol annibynnol gael ei harolygu gan y Prif Arolygydd neu gan un arolygydd cofrestredig neu fwy o dan adran 163(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3232 (W.312)

# EDUCATION, WALES

## The Independent Schools (Publication of Inspection Reports) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations set out the manner in which a report of an inspection of an independent school by the Chief Inspector or one or more registered inspectors under section 163(1)(a) of the Education Act 2002 is to be published when publication is required by the registration authority.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3232 (Cy.312)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2004* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 163(3)(b) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**a**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2004.

**2**. Mae'r Rheoliadau yma yn gymwys i Gymru.

**3**. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw arolygiad cyn 1 Ionawr 2006 o ysgol a oedd ar 31 Rhagfyr 2003 wedi'i chofrestru dros dro yn unol ag adran 465(3) o Ddeddf Addysg 1996(**b**).

**Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu**

**4**. Pan fydd yr awdurdod cofrestru yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad arolygu a wnaed o dan adran 163(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002 cael ei gyhoeddi, rhaid i'r person a gynhaliodd yr arolygiad -

(a) anfon copi o'r adroddiad arolygu, ac unrhyw grynodeb o'r adroddiad hwnnw at y perchennog, a

(b) rhoi copi o'r adroddiad arolygu, ac unrhyw grynodeb o'r adroddiad hwnnw, ar y rhyngrwyd ar ei wefan.

(a) 2002 p.32; *gweler* adran 212(1) am y diffiniad o "regulations", yn eu rhinwedd hwy y mae'r Rheoliadau hyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gymwys mewn perthynas â Chymru'n unig. Mae adran 212(1) yn diffinio "prescribed" hefyd.

(b) 1996 p.56.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3232 (W.312)

# EDUCATION, WALES

## The Independent Schools (Publication of Inspection Reports) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *9th December 2003* |
| *Coming into force* | *1st January 2004* |

In exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 163(3)(b) and 210(7) of the Education Act 2002(**a**), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Name, commencement and application**

**1**. These Regulations are called the Independent Schools (Publication of Inspection Reports) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 1st January 2004.

**2**. These Regulations apply to Wales.

**3**. These Regulations are not to apply to any inspection before 1st January 2006 of a school which was on 31st December 2003 provisionally registered in accordance with section 465(3) of the Education Act 1996(**b**).

**Publication of Inspection Reports**

**4**. Where the registration authority requires publication of a report made under section 163(3)(a) of the Education Act 2002 the person who conducted the inspection must -

(a) send a copy of the inspection report and any summary of that report to the proprietor; and

(b) place a copy of the inspection report and any summary of that report on their internet web site.

(a) 2002 c.32; *see* section 212(1) for the definition of "regulations", by virtue of which these Regulations made by the National Assembly for Wales apply only in relation to Wales. Section 212(1) also defines "prescribed".

(b) 1996 c.56.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

9th December 2003

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3232 (Cy.312)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3232 (W.312)

## EDUCATION, WALES

The Independent Schools (Publication of Inspection Reports) (Wales) Regulations 2003

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090831-7

£1.75

W199/12/03 ON

9 780110 908311